

Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin

Ddydd Iau, 22 Medi 2016, 6pm

Canolfan Hamdden Caerfyrddin, Caerfyrddin

Yn bresennol:

Yr Aelodau:

Mark Hadley (MH) - Cadeirydd
Glyn Evans (GE)
Keith Morgan (KM)
Jillie Gardiner (JG)
Jane Evans (JE)
Geoff Williams (GW)
Caroline Evans (CE)
Alan Warner (AW)

Ysgrifennydd (dros dro)

Caroline Ferguson (CF)

Ymgynghorwyr / Sylwedyddion / Siaradwyr / Y Cyhoedd

Lucy Pugh - Cynorthwydd Mynediad i Gefn Gwlad CSC (LP)
Gerald Brown (GB)
John Cook – Cerddwyr Llanelli (JC)

Ymddiheuriadau (Aelodau)

Karen Burch (Is-gadeirydd)
Richard Leggett
Ed Percy
David Stacey
Eric Davies
Chris Rankin

Ymddiheuriadau (Ymgynghorwyr/Sylwedyddion)

Marie George (MG) – Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae *CSC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Gyngor Sir Caerfyrddin

YR EITEM	CAMAU I'W CYMRYD
Eitem 1 - Croeso a Chyflwyniad Croesawodd MH bawb i'r cyfarfod. Cyflwynodd CF LP fel Cofnodwr ar gyfer y cyfarfod yn ogystal â fel ymgynghorydd technegol ar gyfer data CAMS. Cyflwynodd pawb a oedd yn bresennol eu hunain i fynychwyr newydd.	
Eitem 2 Aelodau Newydd/Ymddiswyddiadau Dau gais newydd am aelodaeth. 1) John Cook o Gerddwyr Llanelli – cynigiwyd gan MH, eiliwyd gan CE. 2) Gerald Brown o Bronwydd Arms – cynigiwyd gan MH, eiliwyd gan JE.	

<p>Croesawyd yr aelodau newydd i'r Fforwm Mynediad Lleol. Rhestr aelodau i gael ei diweddarau.</p>	<p>CF</p>
<p>Eitem 3 Ymddiheuriadau</p> <p>Cyflwynwyd a chofnodwyd ymddiheuriadau.</p> <p>Holodd CE am absenoldeb cynrychiolydd Cyfoeth Naturiol Cymru.</p>	
<p>Eitem 4 Ystyried a Chymeradwyo Cofnodion Cyfarfod y Fforwm Mynediad Lleol a gynhaliwyd ar 12/05/16)</p> <p>Gwerthfawrogwyd y cofnodion da! Dylid eu hanfon i'w cyfieithu cyn gynted â phosibl.</p>	<p>CF</p>
<p>Eitem 5 Materion yn Codi o'r Cofnodion</p> <p>Cynllunio – Prosiectau Datblygu Arwyddocaol Cenedlaethol Derbyniwyd e-bost oddi wrth Richard Jones yn amlinellu ei ofid ynghylch derbyn cymaint o feirniadaeth am yr Is-adran Cynllunio ac ynghylch hen achosion yn ystod y cyflwyniad yr oedd wedi'i baratoi i ddarparu i'r Fforwm Mynediad Lleol yn cynnwys ffeithiau mewn perthynas â phrif ddatblygiadau. Dywedodd y dylid anfon ymholiadau/pryderon penodol i Cynllunio@sirgar.gov.uk</p> <p>A ddylai pob cais cynllunio ddod i law'r Fforwm Mynediad Lleol? CF i fynd ar drywydd niferoedd</p> <p>Gofynnodd JG am newid y geiriad yn y cofnodion o 'Honnodd' i 'Cododd bryderon'.</p> <p>Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus Daethpwyd â thafleuni newydd (sydd bellach ar gael yn gyhoeddus) i'r cyfarfod er mwyn i aelodau fynd â nhw gartref gyda nhw. Cadarnhaodd CF wrth KM fod y Gorchmynion yn cynnwys y blaendraeth.</p> <p>Gwaith Gwelliannau Grant 2015/16 - Adroddiad a Chynllun y Dyfodol Holwyd ynghylch y gost cynnal a chadw fesul metr ar gyfer eleni o'i gymharu â'r llynedd. Hoffai GW weld ffigurau a sut maent wedi gorfod newid i gyd-fynd â gostyngiadau yn y gyllideb. Mae RA yn monitro pob awdurdod lleol mewn perthynas â gostyngiadau o ran cyllid.</p> <p>Adroddiad Blynyddol y Fforwm Mynediad Lleol Cadarnhaodd CF bod Adroddiad Blynyddol y Fforwm Mynediad Lleol wedi'i ddsbarthu a'i gyhoeddi ar y wefan.</p> <p>Rheilffordd Calon Cymru Hoffai CE gopi o grynodedb Rheilffordd Calon Cymru.</p> <p>Adroddiadau Materion Hawliau Tramwy Holodd GW am y mater anomalaidd "CAMS" yn yr adroddiad materion, cadarnhaodd CF fod materion a gofnodwyd o dan CAMS wedi'u hailgategoreiddio'n gywir.</p> <p>Teithio Llesol</p>	<p>Pawb</p> <p>CF</p> <p>CF</p> <p>LP</p> <p>CF</p> <p>CF</p> <p>CF</p>

Siaradodd CF â Simon Charles a gadarnhaodd nad yw'r Map Rhwydwaith Integredig wedi'i gwblhau eto ond dylai fod yn barod i'w gyflwyno yng nghyfarfod mis Rhagfyr.
CF i gadarnhau ac i gynnwys y mater ar yr agenda nesaf.

Pontydd

Cadarnhaodd AW y gyllideb pontydd sef £450,000 – pontydd hanesyddol a pheryglus i'w blaenoriaethu.
Derbyniwyd dyfynbris gan beirianwyr CSC i gynnal arolwg cyflwr Pontydd Hawliau Tramwy Cyhoeddus - ffigwr yn cynnwys 2 ddyn dros 2 flynedd am gost o £360,000 - arolwg yn unig.

Eitem 6 - Rhaglen Waith Gwelliannau Grant 2015/16

CSC yn gwario £54,000 ar Gynllun Gwella Hawliau Tramwy a £70,000 ar Bartneriaeth Gydweithio (JWP).

- Gwariant y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy

17 Llwybr Troed - £41k

1 Llwybr Ceffylau - £3k

6 o Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn y Parth Arfordirol - £5.5k

Taflenni diwygiedig ynghylch Llwybrau'r Sir - £4.5k

- Gwariant Partneriaeth Gydweithio

34 Llwybr Troed - £35k

3 Llwybr Ceffylau - £7k

3 Ffordd Ddiddosbarth - £22k

1 Hawl Dramwy Gyhoeddus yn y Parth Arfordirol - £6k

Cyfanswm o 65 o lwybrau wedi'u gwella yn Sir Gaerfyrddin yn ystod 2015/16.

Hoffai MH bod taflenni newydd Llwybrau'r Sir yn cael eu dosbarthu - i'w rhoi i MH pan fyddant yn barod.

Hefyd hoffai GW daflenni ar gyfer grwpiau RA.

Eitem 7 Dyraniad Cyllid 2016/17

Nid oes unrhyw grant JWP eleni – mae'n cael ei ddisodli gan y Grant Refeniw Sengl.

Neilltuo £27,500 ar gyfer Ynys Dawela - darperir hyn gan dîm Cynnal a Chadw Mynediad i Gefn Gwlad o dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth â'r Gwasanaethau Stryd.

£45,000 i gael ei wario ar lwybrau troed – blaenoriaeth i Lwybrau'r Sir.

£4,000 ar lwybrau ceffylau

£3,000 Llwybr Arfordir Cymru

£2,500 taflenni hynach Llwybrau'r Sir

<p>Holodd KM beth oedd y cynlluniau ar gyfer Ynys Dawela</p> <p>Esboniodd AW bod materion ynghylch y fframwaith caffael yn achosi oedi o ran y gwaith ond bellach mae eithriad mewn lle sy'n caniatáu i'r prosiect symud ymlaen.</p> <p>Nododd KM broblemau o ran dŵr ar y llwybr beicio, yn ogystal â baw ci.</p> <p>Amlinellodd AW gynlluniau i roi pwerau Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus i'r Parcmyn Cefn Gwlad. Aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol yn awyddus i gefnogi AW ar y mater hwn.</p> <p>Esboniodd AW ynghylch y gostyngiad yn niferoedd y Parcmyn - mae'n debygol y gofynnir i Gymunedau gymryd cyfrifoldeb dros rai llwybrau unwaith eto a'u cynnal a'u cadw'n fewnol.</p> <p>Gofynnodd MH am gynnal a chadw cilffyrdd sydd ar agor i unrhyw draffig.</p> <p>Esboniodd AW nad ei gyfrifoldeb ef oedd cilffyrdd sydd ar agor i unrhyw draffig ar hyn o bryd. Rhoddir ychydig o arian tuag at gynnal a chadw Mynediad i Gefn Gwlad o dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r Gwasanaethau Stryd ar gyfer gwaith cilffyrdd sydd ar agor i unrhyw draffig - swm a llwybrau eto i'w cytuno arnynt.</p>	
<p>Eitem 8 - Cytundeb Dirprwyo Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog</p> <p>Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i fod anfon achos busnes ffurfiol i GSC. Cyfarfod nesaf ym mis Hydref, diweddariad yn y cyfarfod nesaf.</p>	CF
<p>Eitem 9 - Adolygiad o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy</p> <p>Rhoddodd CF amlinelliad o ofynion ac amcanion y broses adolygu ac esboniodd y rhoddwyd cymeradwyaeth ar gyfer penodi ymgynghorydd i gynnal yr adolygiad yn Sir Gaerfyrddin oherwydd prinder staff.</p> <p>Gofynnodd GW a fyddai ymgynghoriad.</p> <p>Esboniodd CF y byddai'r Fforwm Mynediad Lleol ynghlwm wrth y broses adolygu yn unol â'r canllawiau, mae hyn yn cynnwys ymgynghoriad.</p> <p>Dogfen ganllawiau i'w dosbarthu i Aelodau.</p>	CF
<p>Eitem 10 - Adroddiad Materion Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus</p> <p>Dosbarthwyd adroddiadau.</p> <p>Gofynnodd MH pe gallai'r adroddiadau gael eu hanfon at aelodau ychydig o ddiwrnodau cyn y cyfarfod nesaf.</p> <p>Gofynnodd KM ynghylch gwaith trashio - nododd fod angen ei wneud cyn mis Mehefin.</p> <p>Cytunodd AW.</p>	LP

<p>Gofynnodd MH os oedd nifer y materion heb eu gwneud yn cynyddu bob blwyddyn.</p> <p>Ffigurau CSC yn cadarnhau hyn.</p> <p>Gofynnodd JG am y naid amlwg yn ffigurau 2015/16.</p> <p>Eglurodd AW fod Jason Lawday wedi mewnbynnu'r holl ddata hanesyddol a gofnodwyd ganddo yn ystod ei amser fel Parcmon. Hefyd ers i Lleol-i fynd yn fyw, mae mwy o gwynion wedi dod i law.</p>	
<p>Eitem 11 - Tîm Cynnal a Chadw Mynediad i Gefn Gwlad CSC</p> <p>Rhoddodd AW amlinelliad byr o'r sefyllfa bresennol.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Ceisio cael cymeradwyaeth i ddefnyddio contractwyr ar gyfer torri gwair yn flynyddol. <p>NEU</p> <ul style="list-style-type: none"> - Edrych ar drosglwyddo'r dasg o gynnal a chadw i'r Cynghorau Cymuned ar gyfradd y cytunir arni. <p>Dros dro i gyd - byddai'r ddau gynnig yn rhyddhau amser Parcmy'n i wneud gwaith cyfalaf, mân waith gorfodaeth a gwaith gwella offer.</p> <p>Posibilrwydd y gellir darparu strwythur newydd yng nghyfarfod nesaf y Fforwm Mynediad Lleol.</p>	AW
<p>Eitem 12 - Gwirfoddolwyr</p> <p>Rhoddodd GW hanes cryno o wirfoddolwyr RA a chadarnhaodd fod Pencadlys y Cerddwyr yn yswirio partïon gwaith gwirfoddol RA.</p> <p>Cynhelir arolygon ynghylch pontydd gan arbenigwyr ond a allai gwirfoddolwyr nodi lleoliadau pontydd? Mater i'w drafod ymhellach.</p>	
<p>Eitem 13 Tîm Cyfreithiol Mynediad Cefn Gwlad CSC</p> <p>Rhoddodd CF ddiweddariad - dim newid.</p>	
<p>Eitem 14 - Gorchmynion sydd heb eu cwblhau</p> <p>Adroddiad sy'n dangos Gorchmynion sydd wedi'u cwblhau ym mlwyddyn ariannol 2016 hyd yn hyn - darparwyd copi i'r holl aelodau.</p> <p>Bellach gellir dangos data yn yr un fformat ar unrhyw adeg ar gyfer unrhyw gyfnod amser penodol, darperir diweddariadau i'r Fforwm Mynediad Lleol ym mhob cyfarfod.</p> <p>Gofynnodd MH a oedd ymgynghori'n digwydd ynghylch Gorchmynion Rheoleiddio Traffig â'r Fforwm Mynediad Lleol.</p> <p>Cadarnhaodd CF fod ymgynghori â'r Fforwm Mynediad Lleol yn digwydd yn achos Gorchmynion Rheoleiddio Traffig parhaol yn unig.</p>	

<p>Eitem 15 - Ymgyrch Diogelwch Ffyrdd BHS</p> <p>KB heb fod yn bresennol - mater yn cael ei ohirio tan y cyfarfod nesaf.</p>	
<p>Eitem 16 - Ymgyngoriad ynghylch Gwella Cyfleoedd i gael Mynediad i'r Awyr Agored ar gyfer Gweithgareddau Hamdden Cyfrifol</p> <p>Rhoddodd MH drosolwg hyd yn hyn yn absenoldeb KB - tynnu oddi ar yr agenda nesaf.</p>	CF
<p>Eitem 17 - Ffordd Cambria</p> <p>GW Ymddiriedolwr Ffordd Cambria, sy'n gyfrifol am ei gyflwr yn Sir Gaerfyrddin.</p> <p>GW gwella marcio ffyrdd gyda chynghor a chaniatâd CSC.</p> <p>GW i gyflenwi map o'r lleoliadau marciau ffordd arfaethedig a'i rhoi i dîm cyfreithiol Mynediad i Gefn Gwlad.</p> <p>Rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf i'r Fforwm Mynediad Lleol yn y cyfarfod nesaf.</p>	GW
<p>Eitem 18 - Fferm Wynt Brechfa</p> <p>Rhoddodd MH wybod i'r aelodau am e-bost gan Bethan Edwards, Rheolwr Prosiect Datblygu Fferm Wynt Brechfa yn cynnig dod i'r Fforwm Mynediad Lleol nesaf i drafod y prosiect.</p> <p>Cytunodd pawb i dderbyn y gwahoddiad cyn belled ag y bydd amser yn caniatáu ar yr agenda nesaf.</p> <p>Rhoddodd JG hanes byr ynghylch y goedwig.</p> <p>Nododd JG fod y Fforwm Mynediad Lleol yn Ymgyngoreion Statudol ar dir Mynediad Agored ac ni ymgyngorwyd â nhw am y prosiect cysylltu.</p> <p>Gofynnodd MH pe gallai JG ddrafftio llythyr yn mynegi pryder ynghylch hyn a'i anfon ato - cytunodd JG.</p> <p>Cyflwynodd JG lythyr yr oedd wedi'i ddrafftio i Gyfoeth Naturiol Cymru a nododd bwysigrwydd codi'r mater ynghylch diffyg ymgyngori â Chyfoeth Naturiol Cymru.</p> <p>Mae JG hefyd yn teimlo ei bod yn bwysig bod rhywun o'r Fforwm Mynediad Lleol yn ymuno â Fforwm Cymunedol NPower.</p> <p>Tynnodd CE sylw at Ogledd Brechfa - cynnig diwygiedig i ddatblygu fferm wynt yn Llanllwni.</p>	JG

<p>Eitem 19 - Cyfarfodydd y Fforwm Mynediad Lleol 2017</p> <p>Gofynnodd MH os oedd pawb yn fodlon â'r amserlen fel y bu ar gyfer 2016 (dim cyfarfod yn yr haf).</p> <p>Cytunodd pawb i gadw at yr un amserlen.</p> <p>Posiblwydd o symud hanner y cyfarfodydd i leoliad yn Llandeilo - CF i edrych ar leoliadau addas.</p> <p>Oherwydd anawsterau o ran mynychu cyfarfodydd, awgrymodd AW y gallai Parcmon Ardal fynychu cyfarfodydd y Fforwm Mynediad Lleol ar ffurf rota i roi diweddariad i'r grŵp. Gallai ef wedyn fynychu cyfarfod y Fforwm Mynediad Lleol yn flynyddol pan ellir trafod materion ariannol. Cytunodd y grŵp fod hyn yn dderbyniol.</p> <p>Dyddiadau/lleoliadau dros dro</p> <p>16 Chwefror - Llandeilo 11 Mai - Caerfyrddin 28 Medi - Llandeilo 7 Rhagfyr - Caerfyrddin</p>	<p>CF</p>
<p>Eitem 20 - Eitemau Agenda yn y dyfodol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Strwythurau Staff – parhaus. • Ymgyrch Cerdded 3D • Ymgyrch Diogelwch Ffyrdd – Menter KB gyda chefnogaeth BHS • Cytundeb Dirprwyo Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog - diweddariad • Themâu Croeso Cymru – 2017 Mythau a Chwedlau, 2018 Blwyddyn y Môr. • Fferm Wynt Brechfa – cyflwyniad gan Bethan Edwards (i'w gadarnhau) • Llwybr Cerdded Rheilffordd Calon Cymru – diweddariad a thrafodaeth. 	
<p>Eitem 21 - Unrhyw Fater Arall</p> <p>Cododd CE bryder ynghylch Coridor Trafnidiaeth Dyffryn Tywi yn cyrraedd Ffair-fach ond heb gysylltiad â Llandeilo/Rheilffordd Calon Cymru. A allai'r Fforwm Mynediad Lleol e-bostio Simon Charles i dynnu sylw at bryder ynghylch y diffyg cysylltiad?</p> <p>CF i e-bostio - mae'n debygol y bydd Simon yn mynychu'r cyfarfod nesaf felly efallai bydd modd trafod ymhellach bryd hynny.</p>	<p>CF</p>
<p>Eitem 22 - Cyfarfod Nesaf</p> <p>Dydd Iau, 8 Rhagfyr am 6pm, Canolfan Hamdden Caerfyrddin</p>	

Bydd y lleoliad, y dyddiad a'r amser yn cael eu cyhoeddi ar y wefan:

<http://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/preswylwyr/hamdden-a-gweithgareddau/hawliau-tramwy-cyhoeddus/fforwm-mynediad-lleol/>